BANK OF ENGLAND

# edrychwch yn agosach

Eich canllaw syml ar wirio papurau banc






# CYFLWYNIAD

Mae'r canllaw syml hwn yn eich helpu i nodi papurau Banc dilys trwy ganolbwyntio ar ddwy nodwedd ddiogelwch allweddol.

Mae papurau ffug yn brin, fel arfer yn llai na 0.02% o'r papurau sydd  mewn cylchrediad. Fodd bynnag, mae'n werth bod yn ofalus gan eu bod yn ddi-werth.

Rydym hefyd yn darparu ystod o ddeunyddiau addysg erail lynghylch ein papurau a'u nodweddion diogelwch, gan gynnwys ffilmiau a hyfforddiant ar-lein.

Ewch i bankofengland.co.uk/banknotes i gael rhagor o adnoddau a gwybodaeth.




Sarah John,
Prif Ariannwr a Chyfarwyddwr Papurau

## Gwiriwch fod eich papur £5 yn ddilys trwy ganolbwyntio ar ddwy nodwedd ddiogelwch allweddol

## 1 Newid delwedd hologram

Gwyrwch y papur o ochr i ochr.
Gwiriwch fod y **geiriau'n newid** rhwng '**Pump**' a '**Punt**'.











## 2 Ffenestr dryloyw

Edrychwch ar y ddelwedd fetelaidd dros y ffenestr. Gwiriwch fod y ffoil yn **aur ar flaen** y papur ac yn **arian ar y cefn**.



## Gwiriwch ragor o nodweddion diogelwch



### Portread y Frenhines yn y ffenestr dryloyw

Mae portread o’r Frenhines wedi’i argraffu ar y ffenestr â ‘£5 Bank of England’ wedi’i argraffu ddwywaith o amgylch yr ymyl.




### Ffin sy’n newid lliw

Pan ogwyddwch y papur, bydd ffin liw o amgylch ymyl y ffenestr dryloyw yn newid o borffor i wyrdd. Mae’r symbol ‘£’ yn y ffenestr yn newid o borffor i wyrdd.




### Clwt ffoil arian

Mae clwt ffoil arian yn cynnwys delwedd 3D o goron y coroni. Fe welwch hon uwchben y ffenestr dryloyw ar flaen y papur.



### Clwt ffoil gwyrdd

Mae clwt ffoil crwn, gwyrdd yn cynnwys llythrennau sy’n sillafu, ‘BLENHEIM’. Fe welwch hyn ar gefn y papur, yn union y tu ôl i’r goron arian ar flaen y papur.




### Cyffyrddiad polymer a phrint wedi’i godi

Mae’r papur wedi’i argraffu ar bolymer, sy’n ddeunydd plastig tenau a hyblyg. Ar flaen y papur, gallwch deimlo print wedi’i godi. Er enghraifft ar y geiriau ‘Bank of England’ ac yn y gornel dde isaf, o amgylch y rhif ‘5’.




### Ansawdd y print

Mae’r llinellau a’r lliwiau printiedig ar y papur yn eglur,cglir ac yn rhydd rhag dwbiadau neu ymylon aneglur. Os ydych yn defnyddio chwyddwydr, fe welwch werth y papur wedi’i ysgrifennu mewn llythrennau a rhifau bach islaw portread y Frenhines.



### Rhif uwch-fioled

O dan olau uwch-fioled o ansawdd da, mae’r rhif ‘5’ yn ymddangos mewn coch a gwyrdd llachar ar flaen y papur, yn erbyn cefndir mwy dwl.

## Gwiriwch fod eich papur £10 yn ddilys trwy ganolbwyntio ar ddwy nodwedd ddiogelwch allweddol

### 1 Newid delwedd hologram

Gwyrwch y papur o ochr i ochr. Gwiriwch fod y **geiriau'n newid** rhwng '**Deg**' a '**Punt**'.













### 2 Ffenestr dryloyw

Edrychwch ar y ddelwedd fetelaidd dros y ffenestr. Gwiriwch fod y ffoil yn **aur ar flaen** y papur ac yn **arian ar y cefn**.


blaen


cefn

## Gwiriwch ragor o nodweddion diogelwch




### Portread y Frenhines yn y ffenestr dryloyw

Mae portread o'r Frenhines wedi'i argraffu ar y ffenestr â '£10 Bank of England' wedi'i argraffu ddwywaith o amgylch yr ymyl.


blaen


cefn

### Symbol '£' ffoil yn y ffenestr dryloyw

Mae'r symbol '£' yn y ffenestr yn arian ar flaen y papur ac yn gopr ar y cefn.




### Cwilsyn sy'n newid lliw

Pan fyddwch yn gwyro'r papur, bydd cwilsyn lliw wrth ochr y ffenestr dryloyw yn newid o borffor i oren.




### Clwt ffoil arian

Mae clwt ffoil arian yn cynnwys delwedd 3D o goron y coroni. Fe welwch hon uwchben y ffenestr dryloyw ar flaen y papur.




### Clwt ffoil copr

Mae clwt ffoil copr ar siâp llyfr yn cynnwys y llythrennau 'JA'. Fe welwch hwn ar gefn y papur, yn union y tu ôl i'r goron arian ar flaen y papur.




### Cyffyrddiad polymer a phrint wedi'i godi

Mae'r papur wedi'i argraffu ar bolymer, sy'n ddeunydd plastig tenau a hyblyg. Ar flaen y papur, gallwch deimlo print wedi'i godi. Er enghraifft ar y geiriau 'Bank of England' ac yn y gornel dde isaf, o amgylch y rhif '10'.




### Ansawdd y print

Mae'r llinellau a'r lliwiau printiedig ar y papur yn eglur, clir ac yn rhydd rhag dwbiadau neu ymylon aneglur. Os ydych yn defnyddio chwyddwydr, fe welwch werth y papur wedi'i ysgrifennu mewn llythrennau a rhifau bach islaw portread y Frenhines.



### Rhif uwch-fioled

O dan olau uwch-fioled o ansawdd da, mae'r rhif '10' yn ymddangos mewn coch a gwyrdd llachar ar flaen y papur, yn erbyn cefndir mwy dwl.

# edrychwch yn agosach

## Gwiriwch fod eich papur polymer £20 yn ddilys trwy ganolbwyntio ar ddwy nodwedd ddiogelwch allweddol

### 1 Newid delwedd Hologram

Gwyrwch y papur o ochr i ochr. Gwiriwch fod y **geiriau'n newid** rhwng '**Ugain**' a '**Punt**'.










### 2 Ffenestri tryloyw

Edrychwch ar y ddelwedd fetelaidd dros y brif ffenestr. Gwiriwch fod y ffoil yn **las ac aur ar flaen** y papur ac yn **arian ar y cefn**.

Chwiliwch am **ail ffenestr lai** yng **nghornel isaf y** papur.



## Gwiriwch ragor o nodweddion diogelwch



### Portread y Frenhines yn y ffenestr dryloyw

Mae portread o'r Frenhines wedi'i argraffu ar y ffenestr ag '£20 Bank of England' wedi'i argraffu ddwywaith o amgylch yr ymyl.



### Clwt ffoil arian

Mae clwt ffoil arian yn cynnwys delwedd 3D o goron y coroni. Fe welwch hon uwchben y ffenestr dryloyw ar flaen y papur.



### Clwt ffoil porffor

Mae clwt ffoil porffor crwn yn cynnwys y llythyren 'T'. Fe welwch hwn ar gefn y papur, yn union y tu ôl i'r goron arian ar flaen y nodyn.






### Cyffyrddiad polymer a phrint wedi'i godi

Mae'r papur wedi'i argraffu ar bolymer, sy'n ddeunydd plastig tenau a hyblyg. Ar flaen y papur, gallwch deimlo print wedi'i godi. Er enghraifft ar y geiriau 'Bank of England' ac yn y gornel dde isaf, dros y ffenestr lai.





### Ansawdd y print

Mae'r llinellau a lliwiau printiedig ar y papur yn eglur, clir ac yn rhydd rhag dwbiadau neu ymylon aneglur. Os ydych yn defnyddio chwyddwydr, fe welwch werth y papur wedi'i ysgrifennu mewn llythrennau a rhifau bach islaw portread y Frenhines.



### Rhif uwch-fioled

O dan olau uwch-fioled o ansawdd da, mae'r rhif '20' yn ymddangos mewn coch a gwyrdd llachar ar flaen y papur, yn erbyn cefndir mwy dwl.

## Gwiriwch fod eich papur £20 papur yn ddilys trwy ganolbwyntio ar ddwy nodwedd ddiogelwch allweddol

### 1 Newid delwedd Hologram

Gwyrwch y papur o ochr i ochr.
Gwiriwch fod y **delweddau'n newid** rhwng symbol '**£**' a'r rhif '**20**'.










### 2 '£20' llachar yn y dyfrnod

Daliwch y papur i fyny i'r golau.
Gwiriwch fod **'£20' llachar** ar ben portread y Frenhines.



## Gwiriwch ragor o nodweddion diogelwch



### Ffoiliau

Mae delweddau bob yn ail o Adam Smith ar hyd y stribed ffoil. Gall lleoliad clytiau ffoil amrywio ar bapurau. I'r dde o lofnod y Prif Ariannwr, mae'r rhif '20' wedi'i foglynnu dros y stribed ffoil.

---



### Cyffyrddiad papur a phrint wedi'i godi

Mae'r papur wedi'i argraffu ar bapur arbennig sy'n rhoi naws unigryw iddo. Ar flaen y papur, gallwch deimlo print wedi'i godi. Er enghraifft ar y geiriau 'Bank of England' ac yn y gornel dde isaf, o amgylch y rhif '20'.


---



### Nodweddion uwch-fioled

O dan olau uwch-fioled o ansawdd da, mae'r rhif '20' yn ymddangos mewn coch a gwyrdd llachar ar flaen y papur, yn erbyn cefndir mwy dwl. Gallwch weld frychau coch a gwyrdd llachar ar flaen a chefn y papur.


---




### Edau fetelaidd

Mae edau fetelaidd wedi'i hymgorffori yn y papur ac mae'n ymddangos fel llinellau arian ar y cefn. Pan delir y papur i fyny i'r golau, mae'r edau yn ymddangos fel llinell dywyll barhaus.

---



### Ansawdd y print

Mae'r llinellau a lliwiau printiedig ar y papur yn eglur, clir ac yn rhydd rhag dwbiadau neu ymylon aneglur. Os ydych yn defnyddio chwyddwydr, fe welwch werth y papur wedi'i ysgrifennu mewn llythrennau a rhifau bach islaw portread y Frenhines.

---




### Cofrestr dryloyw

Mae siapiau lliw wedi'u hargraffu ar flaen a chefn y papur, islaw llofnod y Prif Ariannwr. Mae'r siapiau hyn yn cyfuno i ffurfio symbol '£' pan fydd y papur yn cael ei ddal i fyny i'r golau.

## Gwiriwch fod eich papur £50 yn ddilys trwy ganolbwyntio ar ddwy nodwedd ddiogelwch allweddol

# 1

### Newid delwedd edau symudol

Gwyrwch y papur i fyny ac i lawr neu ochr yn ochr. Gwiriwch fod y **delweddau'n newid** rhwng symbol '**£**' a'r rhif '**50**'.










# 2

### '£50' llachar yn y dyfrnod

Daliwch y papur i fyny i'r golau. Gwiriwch fod **'£50' llachar** ar ben portread y Frenhines.



## Gwiriwch ragor o nodweddion diogelwch




### Cyffyrddiad papur a phrint wedi'i godi

Mae'r papur wedi'i argraffu ar bapur arbennig sy'n rhoi naws unigryw iddo. Ar flaen y papur, gallwch deimlo print wedi'i godi. Er enghraifft ar y geiriau 'Bank of England' ac yn y gornel dde isaf, o amgylch y rhif '50'.



### Nodweddion uwch-fioled

O dan olau uwch-fioled o ansawdd da, mae'r rhif '50' yn ymddangos mewn coch a gwyrdd llachar ar flaen y papur, yn erbyn cefndir mwy dwl. Gallwch weld frychau coch a gwyrdd llachar ar flaen a chefn y papur. Mae'r edau symudol hefyd yn ymddangos yn wyrdd llachar.





### Edau fetelaidd

Mae edau metelaidd wedi'i hymgorffori'n llawn yn y papur. Mae'n ymddangos fel llinell dywyll barhaus pan ydych yn dal y papur i fyny i'r golau.




### Ansawdd y print

Mae'r llinellau a lliwiau printiedig ar y papur yn eglur, clir ac yn rhydd rhag dwbiadau neu ymylon aneglur. Os ydych yn defnyddio chwyddwydr, fe welwch werth y papur wedi'i ysgrifennu mewn llythrennau bach a rhifau islaw portread y Frenhines.





### Cofrestr dryloyw

Mae siapiau lliw wedi'u hargraffu ar flaen a chefn y papur, islaw llofnod y Prif Ariannwr. Mae'r siapiau hyn yn cyfuno i ffurfio symbol '£' pan ddelir y papur i fyny i'r golau.

## Ydych chi'n fanwerthwr neu'n fusnes? Ymunwch â'n Cynllun Gwirio Papurau Banc am ddim.

Mae ein Cynllun yn eich annog i wirio papurau yn y man gwerthu i leihau nifer y papurau ffug sy'n cael eu trosglwyddo. Bydd cefnogi'r Cynllun yn helpu'ch busnes trwy:

- lleihau'r risg o golled ariannol ac enw da a achosir gan bapurau ffug;
- cydnabod y cyfraniad Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol (CSR) mae eich cwmni yn ei wneud wrth helpu i leihau lefelau ffug ac elw cysylltiedig o droseddau; a
- adeiladu perthynas â'r Bank of England. Byddwn yn anfon y wybodaeth ddiweddaraf atoch ac yn dysgu o'ch profiadau.

### Sut i weithredu'r Cynllun yn eich busnes

**Sicrhewch fod eich staff:**

1 Wedi'ch hyfforddi ac yn gwirio papurau yn y man gwerthu

2 Yn gwybod beth i'w wneud â phapur ffug

**Sicrhewch y gall eich busnes:**

3 Rannu gwybodaeth â'r Bank of England


4 Hyrwyddo'r Cynllun

5 Cefnogi gweithgareddau gorfodi'r gyfraith

6 Cael un man cyswllt sy'n gyfrifol am y Cynllun

## Beth i'w wneud os ydych yn cael papur ffug

Mae'n helpu i gael polisi cwmni clir ar yr hyn y dylai staff ei wneud os ydynt yn derbyn papur ffug. Gall hyn atal colled ariannol i'ch busnes ac amddiffyn aelodau staff. Yr arfer gorau yw dilyn y camau hyn:




Ymunwch â'n Cynllun Gwirio Papurau Banc:
**bankofengland.co.uk/banknotecheckingscheme**

## Peidiwch â gadael i bapurau ffug fod yn gost i'ch busnes, eich cwsmeriaid neu'ch enw da.

Po uchaf yw gwerth papur, y mwyaf yw ei faint. Dyma’r meintiau bras:




Ar flaen y papurau polymer (yr ochr â phrint wedi’i godi), gellir nodi’r gwerth yn ôl nifer y clystyrau o ddotiau uchel yn y gornel chwith uchaf. Nid oes gan y £5 rai, mae gan y £10 ddau ac mae gan yr £20 dri chlwstwr.











## Pryd ddylwn i wirio papurau?

Gwiriwch eich papurau pan ydych yn eu derbyn gyntaf. Mae'n bwysig bod yn ofalus mewn sefyllfaoedd lle na allwch weld y papurau yn glir.

## Beth ddylwn i ei wneud os credaf fod gen i bapur ffug?

Cysylltwch â'r heddlu os ydych yn amau bod papur yn ffug. Byddant yn rhoi derbynneb i chi ac yn anfon y papur atom i'w ddadansoddi. Os bydd yr Heddlu'n dweud wrthych nad oes angen y papur i gefnogi ymchwiliad troseddol, yna ewch ag ef i'ch banc fel papur ffug dan amheuaeth. Os yw'n ddilys, cewch ad-daliad.

Os ydych yn fanwerthwr neu'n fusnes, gweler yr adran Cynllun Gwirio Papurau Banc yn y llyfryn hwn i gael cyngor ar beth i'w wneud â phapurau ffug.

## Pa fath o lamp uwch-fioled (UV) y dylwn ei defnyddio i wirio bod papur yn ddilys?

Mae lamp UV sy'n allyrru golau ar oddeutu 365 nanometr yn ddelfrydol ar gyfer gwirio'r nodweddion fflwroleuol ar ein holl bapurau. Nid ydym yn cynghori defnyddio dyfeisiau LED (Deuod Allyrru Golau), fel synwyryddion ar ddull ffob-allweddau oherwydd mae'r rhain yn aml yn allyrru golau uwch na 365 nanometr.

## A allaf ddefnyddio pen synhwyro i wirio a yw papur yn ddilys?

Nid yw pennau synhwyro yn gweld papurau ffug sydd wedi'u hargraffu ar bolymer. Maent yn gweithio trwy adweithio â'r startsh sy'n bresennol mewn papur 'normal'. Gallant ganfod rhai papurau ffug sydd wedi'u hargraffu ar bapur, ond nid pob un. Os ydych yn defnyddio un, cofiwch y gall hen bennau neu bennau brwnt fod yn annibynadwy.

## Sut allaf gyfnewid papurau Bank of England a dynnwyd yn ôl?

Mae llawer o fanciau yn derbyn papurau wedi'u tynnu'n ôl fel adneuon gan gwsmeriaid. Gall Swyddfa'r Post hefyd dderbyn papurau wedi'u tynnu'n ôl fel taliad am nwyddau a gwasanaethau, neu fel adnau i unrhyw gyfrif banc y gallwch ei gyrchu ganddynt. Fel arall, gallwch bob amser gyfnewid papurau a dynnwyd yn ôl yn y Bank of England.

bankofengland.co.uk/banknotes/exchanging-old-banknotes

## Ble alla i gael gwybodaeth am holl arian cyfred y DU?

Ewch i: bankofengland.co.uk/banknotes/uk-notes-and-coins

## Pryd fydd y papur £50 nesaf yn cael ei gyhoeddi?

Disgwyliwn i'r papur polymer £50 gael ei gyhoeddi erbyn diwedd 2021. Bydd yn cynnwys y mathemategydd, Alan Turing a bydd yn 146mm x 77mm.

## Beth ddylwn i ei wneud gyda phapurau wedi'u difrodi?

Byddwn yn ad-dalu'r swm llawn i chi am bapurau dilys sydd wedi'u difrodi ar ddamwain (ar yr amod bod digon o ddarnau neu olion). Fel rheol gyffredinol, dylid cael tystiolaeth o hanner y papur o leiaf.

bankofengland.co.uk/banknotes/damaged-and-contaminated-banknotes

## What is the machine testing framework?

Rydym yn annog gweithgynhyrchwyr peiriannau sy'n gwirio, derbyn neu ddidoli papurau yn awtomatig i brofi galluoedd eu peiriannau yn y Bank of England. Mae angen ail-brofi'n flynyddol a rhestrir peiriannau llwyddiannus ar ein gwefan. Mae'r broses hon yn helpu i gynnal hyder yn ein papurau ac yn caniatáu i gwmnïau wneud dewisiadau gwybodus am y cyfarpar maen nhw'n ei ddefnyddio/prynu.

bankofengland.co.uk/banknotes/retailers-and-businesses








£20
Bank of England
I PROMISE TO PAY THE BEARER ON DEMAND THE SUM OF TWENTY POUNDS
20
Twenty
Pounds


£20




£10
Bank of England
Ten
Pounds

**Am wybodaeth bellach**

Ffôn: 020 3461 4878 (dydd Llun i ddydd Gwener: 10am – 12 hanner dydd)
E-bost: enquiries@bankofengland.co.uk
bankofengland.co.uk/banknotes

Mae'r llyfryn hwn ar gael yn Saesneg.

BANK OF ENGLAND

TACLB10